HOCKEY WALES
HOCI CYMRU

# HOCI CYMRU
# ADRODDIAD BLYNYDDOL
## 2020–2021

# CYNNWYS


CYFLWYNIAD __ 4

NEGES Y CADEIRYDD A'R PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL __ 5

YMGYSYLLTU __ 6

CYFLAWNI POTENSIAL __ 13

AMGYLCHEDDAU FFYNIANNUS __ 20

CYFRANOGIAD __ 26

PARTNERIAETHAU __ 31

MATERION ARIANNOL __ 34



# CYFLWYNIAD

**Mae Hoci Cymru wedi ymrwymo i gyflawni ein bwriad strategol er gwaethaf yr heriau y mae'r pandemig byd-eang wedi eu creu i ni. Rydym yn parhau i fod yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan ddysgu, gan addasu i'r byd sy'n newid yn barhaus yr ydym ni i gyd bellach yn ei wynebu.**

Er bod rhai meysydd o'r busnes wedi'u cyfyngu'n naturiol, rydym wedi herio ein hunain i addasu ein darpariaeth gan alluogi agweddau eraill ar y busnes i ffynnu.

Mae ein strategaeth yn ein sbarduno i ddarparu profiadau hoci o safon byd, adeiladu ar ein cyflawniadau a pharhau i ofyn cwestiynau. Mae ein didwylledd, ein creadigrwydd a'n dyfeisgarwch wedi galluogi ein sefydliad i barhau i dyfu ac rydym yn ymfalchïo mewn bod yn sefydliad blaengar, hyblyg sydd bob amser yn dysgu o'n profiadau ni a'ch profiadau chi. Er bod ein model gweithredol wedi newid ychydig, gan ganiatáu i ni ddefnyddio sgiliau ein tîm yn well - nid yw ein huchelgais a'n hymrwymiad wedi newid.

Rydym yn dod yn fwy masnachol ein ffordd o feddwl, rydym yn cynhyrchu incwm i fuddsoddi mewn hoci er daioni ac rydym yn ymdrechu i fod yn niwtral o ran carbon erbyn 2030. Rydym yn croesawu'r cyfle i weithio gyda chi i'n cefnogi i ysgogi newid, datblygu hoci fel gêm ac ychwanegu gwerth at fywydau pobl drwy ein camp.

# NEGES Y CADEIRYDD A'R PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL

**Mae adlewyrchu ar y 12 mis diwethaf wedi bod yn broses eithaf emosiynol i ni, mewn blwyddyn sydd wedi gweld un o'r cyfnodau mwyaf digynsail a rhyfeddol y byddwn yn ei weld yn ystod ein hoes efallai – rydym yn teimlo'n hynod ddiolchgar a balch o bawb sydd wedi ein helpu, ein cefnogi a'n cynorthwyo i ddod drwy'r pandemig byd-eang hwn: gweithwyr allweddol, gwyddonwyr a'r GIG i enwi dim ond rhai.**

Ers lansio ein bwriad strategol yn 2019 rydym wedi treulio blwyddyn yn dysgu ac yn addasu, rhywbeth yr oeddem yn cydnabod ein bod eisiau ac angen ei wneud mewn amgylchedd sy'n newid yn barhaus. Mae'r dull newydd hwn o weithio wedi ein paratoi'n dda wrth i ni lywio ein ffordd drwy bandemig byd-eang. Wrth i ni ddychwelyd yn araf i gymryd rhan yn y gamp rydym i gyd mor hoff ohoni, byddwn yn parhau i ymrwymo i greu amgylcheddau ffyniannus; yn eich ysbrydoli i gyflawni eich uchelgais; darparu cyfleoedd i bawb ac adeiladu ar rai o'r partneriaethau rhagorol sy'n helpu i wneud i hoci ddigwydd. Rydym yn hynod ddiolchgar i'n haelodau a'n teulu hoci, sydd wedi dangos gwir ymdeimlad o deyrngarwch wrth i ni lywio ein ffordd drwy’r flwyddyn hon gyda'n gilydd, i sicrhau dychwelyd diogel i bawb. Hoffem ddiolch i'r clybiau am eu cefnogaeth barhaus, yn enwedig y Swyddogion Covid-19 am eu hamynedd, eu gwaith caled a'u hymrwymiad i'n camp.

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i longyfarch pobl sy’n creu hanes i Hoci Cymru, wrth i ni ddathlu pedwar chwaraewr o Gymru (2 wryw a 2 fenyw) sydd wedi cael eu dewis i gynrychioli Team GB yng Ngemau Olympaidd Tokyo. Rydym yn dymuno'r gorau i Leah, Sarah, Rupert a Jacob o Hoci Cymru a'r Teulu Hoci ac yn diolch i Chwaraeon Cymru am eu cefnogaeth a'u hyblygrwydd parhaus ac i Gymdeithas Chwaraeon Cymru am eu cyngor a'u harweiniad diflino.

Yn olaf, mynegwn ein diolch diffuant i'r tîm rhyfeddol yn Hoci Cymru. Maent wedi bod yn eithriadol o dan amgylchiadau hynod heriol ac wedi gweithio'n ddiflino, gan gefnogi ei gilydd, a dangos gwytnwch, ymrwymiad a gwaith caled. Wrth i chi ddarllen yr adroddiad hwn, gobeithio y byddwch chi'n mwynhau'r straeon, y cyflawniadau a'r cerrig milltir ac yn adlewyrchu, fel rydym ni wedi'i wneud, ar sut mae hyn wedi bod yn bosibl yn ystod yr amseroedd digynsail hyn.

Rydym yn hynod gyffrous am ein dyfodol, wrth i ni adeiladu ar lwyddiant ein hathletwyr elitaidd rydym yn cael ein sbarduno i ysbrydoli mwy o bobl i gymryd rhan yn ein camp: drwy wirfoddoli, dyfarnu, chwarae neu wylio. Rydym yn edrych ymlaen at fod yn rhan o'r siwrnai hon gyda chi, y Teulu Hoci.



**Conrad Funnell**
Cadeirydd



**Ria Burrage-Male**
Prif Swyddog Gweithredol



# YMGYSYLLTU

# YMGYSYLLTU

## AELODAETH HOCI CYMRU 2020-2021



| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr Aelodau | 5470* | 602 | 2483 | 993 | 1126 |
| Nifer yr Aelodau Hŷn (18+) | 2151* | 115 | 1072 | 265 | 467 |
| Nifer yr Aelodau Iau (D18) | 2200 | 188 | 1164 | 519 | 329 |
| Teulu Hoci | 1119* | 299 | 247 | 209 | 330 |
| Nifer y Clybiau | 64 | 10 | 24 | 17 | 13 |

*yn cynnwys 266 o aelodau unigol (232 hŷn a 34 Teulu Hoci)

Flyerz HOCKEY

WEDI ENNILL DYFARNIAD INSPORT EFYDD

WALKING HOCKEY
WALK YOUR WAY TO WELLNESS

7 SAFLE HOCI YN CERDDED

SMASH Hockey
Games you can play anytime, anywhere!

7 BAG YN CYNNWYS 24 DARN O OFFER

168

O EITEMAU O OFFER

HOOKED ON HOCi

NID YW'R RHAGLEN WEDI GALLU GWEITHREDU FEL ARFER OHERWYDD PANDEMIG COVID

Hockey YOUNG AMBASSADORS

Llysgenhadon Ifanc
Mae rhaglen y Llysgenhadon Ifanc yn ei

8FED FLWYDDYN

yn croesawu

72

O BOBL IFANC

i gyd

Mwy na

500

o Lysgenhadon Ifanc

Tua

5,840

o oriau gwirfoddol ar draws yr 8 mlynedd



# Flyerz HOCKEY

Er bod gennym gymaint o gynlluniau yn eu lle i roi pethau ar waith yn dilyn ennill dyfarniad Insport Efydd, yn sicr fe wnaeth COVID atal y datblygiadau hyn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn gweithio gyda chysylltiadau ar draws y sector i ddatblygu pecyn gweithgarwch adnoddau sy'n cynnwys anabledd, yn bwrpasol ar gyfer Flyerz.

Mae'r pecyn gweithgarwch hwn yn cynnig fersiwn wedi'i addasu o'r gêm, fel bod pobl o bob oedran yn gallu ymuno a phrofi hoci. Bydd creu'r cardiau gweithgarwch yn galluogi cyfranogwyr i ddewis pa weithgaredd maent eisiau cymryd rhan ynddo o'r diagramau cyffrous, ac wedyn mae llawer mwy o fanylion ar gefn y cardiau i'r hyfforddwyr neu'r hwyluswyr sy'n cyflwyno'r sesiwn.

Wrth i ni ddod allan o gyfyngiadau, rydym yn ymwybodol nad yw pawb yn gwbl barod i fynd yn ôl i'w 'hen' fywyd eto, felly byddwn yn cyflwyno'r adnodd yn raddol ac yn targedu ysgolion Anghenion Addysg Arbennig ac Anabledd (SEND) yn ystod y flwyddyn ysgol newydd.





# WALKING HOCKEY

WALK YOUR WAY TO WELLNESS

**Oherwydd y pandemig, daeth y sesiynau Hoci yn Cerdded ledled Cymru i stop oherwydd demograffeg y gynulleidfa y mae Hoci yn Cerdded yn ei denu. Yn ystod yr amser hwn rydym wedi parhau i adeiladu ar bartneriaethau a datblygu adnoddau. Bellach mae gennym 7 safle Hoci yn Cerdded cynaliadwy ar draws Gogledd, De a Gorllewin Cymru, gan gynnwys Caerwent, RhCT, Dysynni a Chaerfyrddin.**

Clwb Hoci Dysynni yw'r diweddaraf i ymuno â Hoci yn Cerdded. Y clwb yw'r clwb cyntaf yng Nghymru i gynnig Hoci yn Cerdded fel ffordd arall o chwarae, ac mae'r ddarpariaeth wedi cael derbyniad gwych gan aelodau presennol a chyn-aelodau yn ogystal ag aelodau teulu'r chwaraewyr ifanc.

Wrth i ni barhau i edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf ar gyfer Hoci yn Cerdded, byddwn yn gobeithio ehangu nifer y safleoedd ledled Cymru ymhellach gyda phecynnau cit a chardiau adnoddau ar gael i unrhyw bartneriaid darparu sydd eisiau ymwneud â'r fenter a darparu Hoci yn Cerdded fel fersiwn amgen o'r gêm i gynulleidfa newydd.



Bellach mae gennym 7 safle Hoci yn Cerdded cynaliadwy ar draws Gogledd, De a Gorllewin Cymru, gan gynnwys Caerwent, RhCT, Dysynni a Chaerfyrddin.’



# Hockey YOUNG AMBASSADORS

**Blwyddyn heriol ond llwyddiannus o ddarparu llais a llwyfan i bobl ifanc ddysgu a datblygu o fewn hoci drwy ein rhaglen Llysgenhadon Ifanc. Wrth i'r rhaglen gychwyn ar ei 8fed blwyddyn, gwelsom 72 o bobl ifanc newydd a phresennol yn cymryd rhan yn y rhaglen.**

Rhoddwyd cychwyn i'r rhaglen gyda Gwyliau Arweinyddiaeth Rhanbarthol, ond cawsant eu cyflwyno ar-lein y tro hwn. Darparwyd cyfleoedd ymgysylltu a dysgu amrywiol drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys Dyfarniad Arweinyddiaeth mewn Hyfforddi Hoci, Eich Rheoli Drwy Amseroedd Ansicr, Cyfathrebu a Rhwydweithio gydag ymgysylltiad gwych o bob rhan o Gymru.

Oherwydd effaith COVID, ychydig iawn o gyfleoedd gwirfoddol oedd ar gael i Lysgenhadon Ifanc Hoci, gyda rhai'n greadigol iawn ac yn cyflwyno sesiynau hoci ar-lein yn eu lleoliadau clwb ac ysgol. Unwaith eto, gweithiodd y Grŵp Llywio yn ddiflino drwy gydol y pandemig i sicrhau bod yr ymgysylltu â'r Llysgenhadon Ifanc yn ystod yr amser hwnnw yn parhau i fod yn uchel.

Dechreuodd Hoci Cymru ar ei daith Ewropeaidd hefyd gyda Ffederasiwn Hoci Ewrop a sawl arbenigwr Arweinyddiaeth arall ledled Ewrop i ddatblygu rhaglen Arweinyddiaeth Ieuenctid Ewropeaidd a fydd yn darparu cyfleoedd arweinyddiaeth ychwanegol i'n Llysgenhadon Ifanc.












# SMASH Hockey

## Games you can play anytime, anywhere!

**Fel rhan o ymgyrch #SportHelps StreetGames Cymru – nod yr ymdrech Genedlaethol hon oedd darparu ffyrdd amgen i bobl ifanc o gymunedau difreintiedig barhau i fod yn actif gartref, oherwydd absenoldeb eu sesiynau chwaraeon rheolaidd yn ystod y cyfyngiadau symud maent wedi'u hwynebu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.**

Darparodd StreetGames arian cyfatebol gan ddyblu ein buddsoddiad ar gyfer y bobl ifanc hyn yn y gymuned, felly o ganlyniad roeddem yn gallu dosbarthu 7 bag cit smash hoci i wahanol leoliadau ledled Cymru:

- Caerdydd
- Blaenau Gwent - Llanhileth
- Abertawe - Manselton
- Llanelli
- Rhondda Cynon Taf
- Gwynedd
- Sir y Fflint

### CIPOLYGON

**Blaenau Gwent**
Mae tîm Datblygu Chwaraeon Aneurin Leisure yn gweithio mewn partneriaeth â Chlwb Llan i ddarparu cyfleoedd iechyd a lles, chwaraeon a gweithgarwch corfforol i deuluoedd Llanhilleth.

Sefydlwyd clwb chwaraeon ar garreg y drws gyda chefnogaeth tîm y gwasanaethau ieuenctid. Byddai nifer o sesiynau'n cael eu cynnal drwy gydol yr wythnos. Bydd yr offer a ddarperir gan Hoci Cymru yn rhoi cyfle i'r cyfranogwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â hoci yn wythnosol unwaith y bydd y cyfyngiadau wedi'u llacio.

Mae cyfran o'r offer yn cael ei dal yn ôl a bydd yn cael ei defnyddio ar gyfer y Llyfrgell Chwaraeon newydd a fydd yn cael ei chynnal o Sefydliad Llanhileth. Bydd y cysyniad yn galluogi i deuluoedd a phobl ifanc logi darnau o offer chwaraeon na fyddent fel rheol yn gallu cael mynediad atynt. Byddant yn gallu llogi eitem o offer, mynd â hi i'w defnyddio gartref neu yn y gymuned a bydd gofyn iddynt ddod a'r eitem yn ôl ar ôl cyfnod o amser. Bydd adnoddau'n cyd-fynd â'r offer i'w helpu i'w ddefnyddio'n gywir ac i ddysgu sgiliau newydd.

**Abertawe**
Bydd yr offer hoci a ddarperir gan Hoci Cymru yn cael ei ddefnyddio yng nghymuned Manselton, clwb chwaraeon ar garreg y drws sy'n cael ei ddarparu gan nifer o bartneriaid i sicrhau bod teuluoedd a phobl ifanc o'r gymuned leol yn cael mynediad at gyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Mae cynlluniau ar waith i ailddechrau'r ddarpariaeth ar ôl gwyliau'r Pasg, gyda'r bobl ifanc yn dod â'u hoffer yn ôl i'r Clwb Chwaraeon ar Garreg y Drws.



# HOOKED ON HOCI

Nid yw'r rhaglen Hooked on Hoci ar gyfer ysgolion cynradd wedi gallu gweithredu fel arfer oherwydd pandemig COVID. Mae'r pecyn arferol, sy'n cynnwys 6 sesiwn a hyfforddir yn yr ysgol, mynediad i Ŵyl leol, hyfforddiant athrawon a chefnogaeth cyswllt clwb ysgol gan Hoci Cymru, wedi cael ei ohirio.

Mae'r Tîm Datblygu wedi bod yn brysur yn datblygu ein darpariaeth ddigidol a bydd y Pecyn Rhithwir newydd yn cael ei hyrwyddo i ysgolion ei ddefnyddio yn fuan iawn. Mae'r Tîm Datblygu hefyd wedi hyrwyddo amrywiol Heriau Cenedlaethol gyda charfan Merched Hŷn Cymru yn gwahodd plant i gymryd rhan mewn Heriau o'u cartref. Mae wedi bod yn wych gweld cymaint o blant yn cymryd rhan ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr at eich gweld chi i gyd yn ôl ar gae yn fuan iawn!

# CYFLAWNI POTENSIAL



# UCHAFBWYNTIAU CYFLAWNI POTENSIAL

## TEAM GB 4 CHWARAEWR O GYMRU YN RHAN O GARFAN PRYDAIN FAWR



Sarah Jones



Jacob Draper




Leah Wilkinson



Rupert Shipperley

## DATBLYGIAD ELITAIDD PRYDAIN FAWR



Rhys Bradshaw



Izzie Howell



# HOCI PRYDAIN FAWR

Mae ein 4 chwaraewr dros Brydain Fawr wedi parhau i chwarae mewn gemau Cynghrair Broffesiynol sydd wedi cael eu cynnal yn ystod y cyfnod hwn. I ddynion a merched roedd hyn yn golygu gemau yn erbyn Gwlad Belg a'r Iseldiroedd ym mis Hydref / Tachwedd 2020, a'r Almaen, UDA (merched) a Sbaen (Dynion) ym mis Mai 2021 cyn cymryd saib dros dro gyda gweithgarwch y Gwledydd Cartref ym mis Mehefin 2021.

Yn ystod y flwyddyn hon hefyd rydym wedi cael cynrychiolaeth ar raglen Datblygu Elitaidd Prydain Fawr gan Rhys Bradshaw ac Izzie Howell










# RHAGLENNI'R DYNION A'R MERCHED HŶN A D23 / D21

**Rydym wedi bod yn ddiolchgar eleni ein bod, pan gafodd ei ganiatáu, wedi gallu hyfforddi a chystadlu ar lefel hŷn gan sicrhau caniatâd Elitaidd. Dim ond ym mis Mawrth 2021 y llwyddodd ein rhaglenni D23 / D21 i ddychwelyd i weithgarwch fel rhan o'r caniatâd hwn felly maent wedi bod yn hyfforddi heb unrhyw gyfleoedd cystadleuol ystyrlon hyd yn hyn ond rydym yn parhau'n obeithiol y bydd y darlun hwn yn newid wrth i ni symud mwy i mewn i gyfnod yr haf.**

Er bod caniatâd Elitaidd yn galluogi i'n rhaglenni weithredu'n ddigonol o fewn y Gwledydd Cartref, yn anffodus mae teithio dramor ac yn enwedig i Ewrop wedi darparu rhwystr gwirioneddol i'r cyfleoedd arferol am gemau cystadleuol, o ystyried y cyfyngiadau teithio lluosog a'r heriau i'w goresgyn, yn anad dim ein chwaraewyr rhan amser yn gorfod ynysu ar ôl dychwelyd am gyfnod o amser. Mae hyn wedi effeithio ar deithiau dynion a merched a drefnwyd yn flaenorol, gyda rhywfaint o feddwl creadigol yn ofynnol i ddarparu cyfleoedd am gemau i'r sgwadiau.

Mae paratoadau'r dynion hŷn wedi canolbwyntio ar y Pencampwriaethau Ewropeaidd ym mis Mehefin 2021 ond er eu bod wedi gallu cael gemau yn erbyn rhaglen Hŷn Prydain Fawr ac EDP Prydain Fawr, dim ond 2 gêm brawf wnaethant lwyddo i'w chwarae, yng Nghaerdydd yn erbyn yr Alban ym mis Mai 2021, gyda buddugoliaeth yr un i'r timau. Yn nodedig, yn y gemau hyn, enillodd Lewis Prosser ei 150fed Cap dros Gymru a hefyd cap cyntaf Fred Newbold.

Nid yw'r merched hŷn wedi chwarae unrhyw gemau gyda chapiau eto yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er eu bod wedi creu cronfa o gemau ar draws y flwyddyn, gyda gemau yn erbyn timau Uwch Gynghrair Lloegr, Surbiton a Clifton Robinsons, merched yr Alban, EDP Prydain Fawr, dynion Caerdydd a'r Met a dynion Lluoedd Arfog y DU. Mae'r paratoadau'n parhau ar gyfer eu hymgyrch Ewropeaidd sydd i fod i gael ei chynnal yn y Weriniaeth Tsiec ym mis Awst.



# GRWPIAU OEDRAN CENEDLAETHOL

**Unwaith eto, yn debyg iawn i'r rhaglenni D23 / D21, dim ond ar ddiwedd Mawrth 2021 y llwyddodd gweithgarwch y Grŵp Oedran Cenedlaethol i ddychwelyd ar ôl cael caniatâd Elitaidd. Rhoddodd hyn amser i ni ymgymryd â phroses recriwtio drylwyr iawn ar gyfer Prif Hyfforddwyr a Hyfforddwyr Cynorthwyol i lenwi ein strwythur newydd, dychweliad sgwadiau bechgyn a merched dan 16 a dan 18 ar wahân ond yn parhau i fod yn gysylltiedig drwy arweinyddiaeth rhaglen, athroniaeth a'u natur pontio. Fe wnaethom hefyd gyflwyno haen newydd o gynorthwywyr, Hyfforddwyr Datblygu Llwybr, sy'n galluogi cyswllt i fwy o hyfforddwyr sy'n hyfforddi yng Nghymru â'r Llwybr ar y lefel hon, gyda phroses datblygu hyfforddwyr wedi'i diffinio a'i thargedu'n glir i'w cefnogi gyda'r ymgysylltu hwn.**

Er gwaethaf y penderfyniad anochel o orfod tynnu allan o Bencampwriaethau D19 Ewrop a chanslo Ewro 5 Dan 16, rydym yn dal i allu edrych ymlaen at raglen gemau'r Gwledydd Cartref ar gyfer y ddau grŵp NAG drwy gydol haf 2021 a fydd yn sicrhau bod ein chwaraewyr yn dal i allu profi hoci rhyngwladol yn y cyfnod hwn, yn ogystal ag edrych ymlaen at ddychwelyd unwaith eto i gystadleuaeth Hoci Gemau Ysgolion y DU ym mis Medi.

Er mai dim ond ar-lein y llwyddwyd i gynnal mwyafrif strwythur y Ganolfan Berfformio Ranbarthol newydd o dan y rhaglen NAG yn ystod y cylch hwn, roedd y rhan bwysig hon o'r Llwybr sy'n galluogi i ni gadw a datblygu nifer dyfnach yn y gronfa dalent yn parhau i roi cipolwg ar y dyfodol, gydag ymgysylltu cadarnhaol yn digwydd a sefydlu ein model addysg gyfannol newydd a fydd, gobeithio, yn helpu i ddatblygu'r person y tu ôl i'r chwaraewr ac ychwanegu llawer mwy o gefnogaeth oddi ar y cae at ei ddatblygiad. Defnyddiwyd siaradwyr gwadd i ychwanegu blas gwahanol a hefyd o'r tu allan i hoci. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at fis Medi ac ailddechrau'r RPC nawr, a'r cyfle i weld gwerth llawn ein perthnasoedd â'r 3 Canolfan Ranbarthol, yn CGChC (Caerdydd), Prifysgol Abertawe a Pharc Eirias (Bae Colwyn) a gwneud defnydd llawn o'r holl offer hyfforddi sy'n cael ei ddarparu drwy ein nawdd gan New World Sport.



# STAFF CEFNOGI PERFFORMIAD

### MERCHED HŶN

**Kevin Johnson**
*Prif Hyfforddwr*

**Rebecca Daniels**
*Rheolwr*

**Moses Lodarmasse**
*Uwch Hyfforddwr Cynorthwyol a Phrif Hyfforddwr D23*

**Walid Abdo**
*Hyfforddwr Cynorthwyol*

**Gareth Terrett**
*Hyfforddwr Cynorthwyol D23*

**Jonny Harper**
*Ffisiotherapydd*

**Sam Milner**
*Ffisiotherapydd D23*

**Theo Dowse**
*Hyfforddwr Gôl-geidwaid / Dadansoddwr Perfformiad*

**Ross Hall**
*Cefnogaeth Seicolegol*

**Liam Mickleburgh**
*Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru*



*Performance Staff - Senior Women*




*Performance Staff - Senior Men*

### DYNION HŶN

**Danny Newcombe**
*Prif Hyfforddwr*

**Will Packer**
*Rheolwr*

**David Hacker**
*Uwch Hyfforddwr Cynorthwyol y Dynion*

**Martin Schouten**
*Hyfforddwr Cynorthwyol a Phrif Hyfforddwr y Rhaglen D23*

**Gwyn Williams**
*Hyfforddwr Cynorthwyol D23*

**Sam Rowe**
*Dadansoddwr Perfformiad*

**Tom Jenkins**
*Ffisiotherapydd*

**Carmen Ansley**
*Ffisiotherapydd*

**Keir Starley**
*Hyfforddwr Gôl-geidwaid*

### GRWPIAU OEDRAN CENEDLAETHOL – MERCHED

**Shelley Robinson**
*Rheolwr y Rhaglen*

**Elliot Foweraker**
*Prif Hyfforddwr D18*

**Mark Ramage**
*Hyfforddwr Cynorthwyol D18*

**Adam Broomfield**
*Hyfforddwr Datblygu Llwybr D18*

**Mark Ramage**
*Prif Hyfforddwr D16*

**Cheryl Campling**
*Hyfforddwr Cynorthwyol D16*

**Ellie Pye**
*Hyfforddwr Datblygu Llwybr D16*

**Tom Chadwick**
*Arweinydd Hyfforddi Gôl-geidwaid Llwybr*

**Mark Robinson**
*Dadansoddwr Perfformiad / Hyfforddwr Cefnogi*

**Sam Watts**
*Dadansoddwr Perfformiad*

**Sam Milner**
*Ffisiotherapydd*

**Kieran Tuck**
*Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru*

### GRWPIAU OEDRAN CENEDLAETHOL – BECHGYN

**Joe Gleeson**
*Rheolwr y Rhaglen*

**Mike Williamson**
*Prif Hyfforddwr D18*

**Luke Stone**
*Hyfforddwr Cynorthwyol D18*

**Jasminder Singh**
*Hyfforddwr Datblygu Llwybr D18*

**Lee Marshall**
*Prif Hyfforddwr D16*


**Mohamed Samak**
*Hyfforddwr Cynorthwyol D16*

**Ieuan Bartlett**
*Hyfforddwr Datblygu Llwybr D16*

**Paul Dunleavy**
*Dadansoddwr Perfformiad*

**Carmen Ansley**
*Ffisiotherapydd*

360 Hockey Centres





**Oherwydd COVID, bu'n rhaid i Hoci Cymru wneud y penderfyniad anodd ym mis Medi 2020 i atal pob gweithgarwch llwybr tan fis Ionawr 2021 yng ngoleuni lles a diogelwch yr holl chwaraewyr dan sylw ledled Cymru.**

Wrth i ni agosáu at fis Ionawr 2021 roeddem yn gwybod y byddai'n rhaid i ni ohirio'r dechrau i ddyddiad yn y dyfodol oherwydd y risgiau cysylltiedig â dod â chwaraewyr at ei gilydd i un amgylchedd.

Ar ôl llawer o gynllunio, cychwynnodd rhaglen o floc haf 10 wythnos ym mis Ebrill 2021, gan weithio gyda mwy na 200 o chwaraewyr ledled Cymru, yn cael ei hwyluso gan fwy nag 20 o hyfforddwyr. Er nad hwn yw'r cyfnod arferol i 360 gael ei chyflwyno, mae'r rhieni, gwarcheidwaid, chwaraewyr, hyfforddwyr a staff cefnogi sydd wedi ymwneud wedi cofleidio'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig yn gadarnhaol ac wedi cymryd rhan mewn rhaglen 360 wych.


## MAWRTH 2021



**213**
**O CHWARAEWYR**
ar draws
**8**
**LLEOLIAD**




**21**
**O HYFFORDDWYR RHEOLAIDD**
yn cyflwyno ar draws y canolfannau



**ARWEINYDD CRYFDER A CHYFLYRU**
penodol ar gyfer y rhaglen

# AMGYLCHEDDAU FFYNIANNUS



# UCHAFBWYNTIAU AMGYLCHEDDAU FFYNIANNUS

## HYFFORDDI



**11**

O DDYFARNIADAU ARWEINYDDIAETH AR-LEIN MEWN HYFFORDDIANT HOCI WEDI'U CYFLWYNO I

**102**

O GYFRANOGWYR



**206**

O HYFFORDDWYR YN AELODAU LEDLED CYMRU

Mae ein **Dyfarniad Arweinyddiaeth mewn Hyfforddi Hoci** yn dod gydag **achrediad Arweinydd Chwaraeon.**

## DYFARNU



**18**

O GYRSIAU DYFARNU LEFEL 1 AR-LEIN WEDI'U CYFLWYNO I

**56**

O GYFRANOGWYR



**288**

O DDYFARNWYR YN AELODAU LEDLED CYMRU




# DATBLYGU HYFFORDDWYR

**Tua diwedd 2020, gwnaethom ddisodli'r 1 swydd datblygwr hyfforddwyr llawn amser ledled y wlad gyda 3 rôl i'w llenwi'n rhan amser ac roeddem yn teimlo bod hyn yn gweddu'n well i'n hanghenion strategol a gweithredol yn y maes hwn. Mae hyn hefyd yn darparu lefel ranbarthol o gefnogaeth sydd wedi'i seilio ar ein 3 Canolfan Perfformiad Ranbarthol ar draws ein llwybr chwaraewyr. Penodwyd Jon Evans (De Orllewin), Walid Abdo (Canolbarth y De) a Tim Hoare (Gogledd) gennym.**

Mae gan bob un o'r tri amcanion Cenedlaethol i'w cyflawni ac i arwain arnynt yn ogystal â chefnogi'r anghenion Rhanbarthol ac maent yn bennaf gyfrifol am weithio i gynyddu a chefnogi ein gweithlu hyfforddi ledled Cymru, gan helpu i gyflawni ein strategaeth i adnabod, datblygu a chefnogi hyfforddwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd, cefnogi ein hyfforddwyr Llwybr a darparu rhaglen ddatblygu bwrpasol ar eu cyfer ac i barhau i gefnogi ein clybiau a'n cymuned. Yn ogystal â hyn mae ein datblygwyr hyfforddwyr yn parhau i weithio gyda thîm Datblygu Hyfforddwyr Prydain Fawr ac yn chwarae eu rhan yn y darn ehangach hwn fel gwlad gartref.

Prosiectau a mentrau cenedlaethol rydym wedi bod yn gweithio arnynt eisoes neu tuag atynt yn 2021:

- Creu cwricwlwm datblygu pwrpasol ar gyfer gwahanol lefelau o hyfforddwyr yng Nghymru, yn ogystal â gweithio gyda sefydliadau partner.
- Prosiect hyfforddwyr benywaidd - rydym eisoes wedi cynnal fforwm cadarnhaol iawn ac wedi gwrando ar y pwyntiau pwysig a godwyd ac rydym bellach yn creu rhaglen fwy ffurfiol ar gyfer y dyfodol i gefnogi datblygiad mwy o hyfforddwyr benywaidd yng Nghymru.
- Arolwg Hyfforddi Cenedlaethol - estyn allan a chasglu gwybodaeth gan aelodau i helpu i lunio a llywio ein cyfeiriad strategol yn y dyfodol.
- Cynllun peilot ar gyfer Datblygwyr Hyfforddwyr Clwb - ein gobaith yw creu pwyntiau cyswllt datblygu hyfforddwyr mewn cymaint o glybiau yng Nghymru ag y gallwn ni ac ymestyn ein rhwydwaith. Ar hyn o bryd mae hyn yn cael ei dreialu mewn nifer o glybiau cyn i ni ei gyflwyno'n ehangach yn ystod y misoedd sydd i ddod.
- Rhaglen cefnogi hyfforddwyr Llwybr Perfformiad - mae holl staff hyfforddi'r Grwpiau Oedran Cenedlaethol wedi derbyn pecyn datblygu pwrpasol sy'n cynnwys gwaith wedi'i dargedu a chefnogaeth gyda'u datblygwr hyfforddwyr penodol a hefyd ymgysylltu bob mis fel grŵp gyda siaradwyr gwadd a chyfleoedd rhyngweithio eraill.

Mae'r Addysg Hyfforddwyr yn parhau i gyd-fynd â Datblygiad Hyfforddwyr Prydain Fawr a thrwy'r Hwb Hoci ond yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae llawer o ymrwymiadau naill ai wedi'u haddasu i gynnwys ar-lein neu wedi'u canslo / gohirio.





# DYFARNIAD ARWEINYDDIAETH MEWN HYFFORDDI HOCI

**Yn ystod y cyfnod clo cyntaf, ni allai unrhyw un fod wedi rhagweld beth fyddai effeithiau COVID wedi bod a pha mor hir y byddem yn wynebu ansicrwydd o'r fath. Yn ystod haf 2020, gwnaethom benderfyniad i symud y Dyfarniad Arweinyddiaeth mewn Hyfforddi Hoci ar-lein i gael gwared ar y rhwystrau oedd y pandemig yn ein gorfodi i ddelio â hwy. Heb unrhyw ryngweithio wyneb yn wyneb yn bosibl, gwnaethom symud y cynnwys ar-lein gan ddefnyddio rhaglenni newydd yr oedd yn rhaid i bob aelod o staff ymgyfarwyddo â hwy, er mwyn symud gyda'r amseroedd a oedd yn newid o hyd.**

Drwy'r broses hon, roeddem yn gallu ymgorffori cynnwys anabledd yn y cynnwys newydd, sy'n parhau i'n galluogi i anfon neges allweddol at ein holl ddarpar hyfforddwyr newydd gan nodi bod cynnwys pawb yn dechrau ar lawr gwlad a'n bod eisiau i'n holl glybiau fod mor hygyrch â phosibl.

Ym mis Hydref 2020, i baratoi ar gyfer lansiad cychwynnol y fersiwn ar-lein, aethom ati i hysbysebu i recriwtio tiwtoriaid i gyflwyno ein cwrs newydd. Ym mis Tachwedd, penodwyd 9 tiwtor gennym, sydd â dyfnder gwybodaeth enfawr o ran datblygu chwaraeon ac angerdd dros hoci ac maent wedi ymrwymo i'n helpu i greu hyfforddwyr y dyfodol.

Ers y lansiad rydym wedi cael 108 o ymgeiswyr yn cymryd rhan yn y theori ar-lein, gan ddangos bod yr oes newydd hon o ddysgu ar-lein wedi bod yn adnodd effeithiol iawn i ni ei ddatblygu. Er mwyn galluogi'r holl ymgeiswyr i gwblhau eu dyfarniad, byddant yn mynychu sesiwn ymarferol dilynol gyda'n tiwtoriaid a gyda chefnogaeth ein datblygwyr hyfforddwyr i'w cychwyn ar eu siwrnai hyfforddi. Mae hynny'n golygu y bydd mwy na 540 o oriau o hyfforddi yn digwydd yn ystod y misoedd nesaf, fel bod y cyfranogwyr yn gallu ennill eu hardystiad yn y dyfarniad.



# ADRODDIAD BLYNYDDOL CYMDEITHAS DYFARNWYR HOCI CYMRU

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae gweithgarwch WHUA, fel popeth arall, wedi lleihau. Un datblygiad mawr rydym wedi'i gyflawni dros y deunaw mis diwethaf oedd symud y cwrs lefel un ar-lein. Gan ddefnyddio platfformau e-ddysgu ar-lein rydym wedi llwyddo i ddatblygu'r cwrs yn gyfres o weithdai ar-lein rhyngweithiol. Prif fanteision y dull cyflwyno hwn yw nad ydym bellach yn gyfyngedig i gael lleiafswm o bobl mewn ardal i gynnal cwrs, lle bynnag rydych yn byw gallwch nawr fewngofnodi a chael mynediad i'r cynnwys. Ar ddiwedd y cyfnodau clo, rydym hefyd wedi bod yn cynnig asesiadau os oedd hynny'n bosib, a byddem yn annog clybiau, os ydych chi'n trefnu gemau cyfeillgar dros dymor yr haf a bod gennych ddyfarnwyr rhannol gymwys y mae angen eu hasesu, i gysylltu â ni.

Rydym wedi gwneud cais llwyddiannus am rywfaint o gyllid yr ydym yn mynd i'w ddefnyddio i ddechrau datblygu cwrs 'Datblygu Dyfarnwyr Clwb', a'i nod yw galluogi clybiau i gefnogi eu dyfarnwyr newydd tra maent yn ymgymryd â'u hyfforddiant. Rydym yn gobeithio ehangu hyn mewn pryd ar gyfer y tymor newydd.

Unwaith eto, roedd ein dyfarnwyr a'n swyddogion yn ddigon ffodus i gael mwy na'n cyfran deg o benodiadau gan yr EHF. Byddai'r rhain wedi arwain at Megan James a Jono Goold yn mynychu eu twrnameintiau cyntaf. Yn anffodus, mae'r mwyafrif helaeth o'r rhain wedi'u canslo neu wedi'u tynnu'n ôl oherwydd i'r timau cenedlaethol gael eu tynnu'n ôl. Gobeithio na fydd yn rhy hir cyn i'r dyfarnwyr a'r swyddogion hyn gael cyfle i gynrychioli Cymru a'r WHUA ar lefel Ewropeaidd. Wrth i'r cyfnod clo gael ei godi, gwelsom Gymru yn chwarae rhai gemau prawf yn erbyn yr Alban yng Nghaerdydd a rhaid llongyfarch Luke Rees a ddyfarnodd ei gêm brawf gyntaf.

Croesi bysedd y bydd y gweithgareddau arferol yn dychwelyd y tymor nesaf ac yn caniatáu i'n dyfarnwyr a'n swyddogion fynychu twrnameintiau eto.





# CYFLEUSTERAU

**Mae Hoci Cymru yn parhau i gydnabod y rôl sylfaenol sydd gan Amgylcheddau Ffyniannus i'w chwarae o ran mwynhad unigolyn o'r gamp, felly rydym yn gweithio'n agos iawn gyda phartneriaid ac aelodau fel ei gilydd i sicrhau bod mynediad at gyfleusterau o ansawdd uchel yn realiti ledled Cymru. Ers yr Adroddiad Blynyddol diwethaf, rydym wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid i weld cynnydd sylweddol mewn nifer o leoliadau, gan gynnwys y canlynol:**

- **Pwllheli** – Cae Tyweirch Artiffisial newydd sbon wedi'i osod yng Nghlwb Hoci Pwllheli sy'n gweithredu fel yr unig gyfleuster hoci maint llawn ar Benrhyn Llŷn.
- **Y Trallwng** – Yn dilyn heriau yn y lleoliad, buom yn gweithio'n agos gyda Chyngor Sir Powys a newidiodd yr hen arwyneb am un newydd sbon yn gynharach eleni.
- **Ysgol St John Lloyd, Llanelli** – Drwy ein gwaith fel rhan o'r Grŵp Cydweithredu ar Gyfleusterau gwnaethom sicrhau cyllid ar gyfer cae hoci newydd yn Ne Orllewin Cymru a fydd yn ddarpariaeth hanfodol ar gyfer tref Llanelli.
- **Canolfan Hamdden Sue Noake** – Mae cyllid pellach gan y Grŵp Cydweithredu ar Gyfleusterau wedi arwain at ailwynebu'r Cae Artiffisial yng Nghanolfan Hamdden Sue Noake sy'n gyfleuster hanfodol i'r gymuned leol.


Rydym hefyd yn falch o gyhoeddi bod y lleoliadau canlynol i gyd wedi'u hachredu gan FIH:

- Ysgol Gymraeg Bro Dur, Abertawe.
- Ysgol Gyfun Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr.
- Canolfan Hamdden Plas Ffrancon, Bangor.
- Canolfan Hamdden Plas Silyn, Caernarfon.
- Cae 1 Pentref Chwaraeon Prifysgol Abertawe, Abertawe.
- Ysgol Caer Elen, Hwlffordd.
- Canolfan Hamdden Flash, Y Trallwng.
- Ysgol Y Preseli, Sir Benfro.

Mae cyflwyno arwynebau chwarae Gen 2, y mae rhai ohonynt wedi'u gosod yng Nghymru eisoes, yn galluogi cymunedau i elwa o arwyneb chwarae sy'n darparu ar gyfer pêl rwyd, tennis a hoci mewn un cyfleuster. Mae'r hyblygrwydd hwn yn galluogi darparwyr hamdden i greu refeniw masnachol o nifer o chwaraeon a chaniatáu i hoci barhau i ffynnu fel camp.

Rydym yn cydnabod bod mwy i Amgylchedd Ffyniannus na'r arwyneb chwarae yn unig, felly parhewch i weithio'n agos iawn gyda darparwyr cyfleusterau i ddatblygu'r profiad cyfan, o fannau gwylio i feysydd parcio a darparu lluniaeth ar y safle.

# CYFRANOGIAD









# MEISTRI CYMRU – MERCHED DROS 35, 40, 45, 50, 55 A 60

**Yn nhymor Meistri 2020 y merched gwelwyd twrnamaint y Gwledydd Cartref ar gyfer pob grŵp oedran yng Nghaeredin yn cael ei ganslo oherwydd Pandemig COVID. Roedd hyn hefyd yn wir am Gwpan y Byd Dros 35 a Thros 40 oedd i fod gael ei gynnal yn Nottingham ym mis Awst 2020 a Thros 45, 50, 55 a 60 oedd i fod i fynd i Dde Affrica ym mis Medi 2020.**

Aildrefnwyd y ddau dwrnamaint yma i 2021 yn yr un lleoliadau ond oherwydd y sefyllfa barhaus cawsant eu canslo unwaith eto, gyda Chwpan y Byd yn cael ei symud i 2022 yn Nottingham a De Affrica. Bydd twrnamaint y Gwledydd Cartref yn cael ei gynnal nawr yn Nottingham yn 2022 a hwn fydd y tro olaf y bydd twrnamaint y merched yn cael ei gynnal gyda phob grŵp oedran gyda'i gilydd, oherwydd nifer y grwpiau oedran sydd bellach yn cystadlu. Nid oes cyfleusterau ar gael a all gynnal twrnamaint o'r maint hwn dros dridiau yng Nghymru, yr Alban ac Iwerddon.

Rydym wedi llwyddo i drefnu dwy gêm gyfeillgar ryngwladol ar gyfer pob grŵp oedran yn Nottingham rhwng Awst 14eg a 16eg 2021 a bydd y gemau yn erbyn Lloegr a'r Alban a bydd gêm gyfeillgar yn erbyn tîm rhanbarthol o Loegr. Mae hyn wedi bod yn bosibl oherwydd y llacio ar y cyfyngiadau symud ar gyfer y tair gwlad ond ni fydd Iwerddon yn gallu cystadlu oherwydd y cyfyngiadau parhaus yn eu gwlad.







# MEISTRI CYMRU – DYNION DROS 35, 40, 45, 50, 55, 60, 65 A 70

**Mae sesiynau hyfforddi a gemau cynhesu wedi dechrau wrth baratoi ar gyfer y gemau cyfeillgar, gyda'r chwaraewyr yn awyddus i dynnu'r llwch oddi ar eu ffyn a mynd yn ôl ar y cae a chwarae Hoci.**

O ganlyniad i'r pandemig, ni chwaraewyd unrhyw gemau rhyngwladol na chynrychioliadol gan unrhyw un o'n grwpiau oedran. Fodd bynnag, unwaith y caniatawyd hoci eto yn Lloegr ddechrau haf 2020, sefydlwyd cynghrair meistri anffurfiol fechan, gyda'i ffocws ar Hampshire, gan roi cyfle i Ddreigiau Cymru chwarae mewn tîm 60+ ond, yn bwysicach fyth ar gyfer y dyfodol, cafodd tîm Dreigiau Prentis ei sefydlu ar gyfer pobl dros 50 a 55 a'r gobaith yw y bydd hyn yn y tymor hir yn ehangu'r sylfaen o chwaraewyr ac yn galluogi Cymru i gystadlu mewn digwyddiadau Ysbryd y Meistri'r Byd ac Ewrop yn y grwpiau oedran hyn.

Er bod yr holl Gwpanau Byd a drefnwyd ar gyfer Nottingham, Cape Town a Tokyo wedi'u canslo y llynedd, y gobaith oedd, wrth i reolau'r cyfyngiadau symud lacio, y byddai cynnydd mewn digwyddiadau, ond mae'r ansicrwydd parhaus ynghylch lledaeniad y coronafeirws a'r anawsterau gyda theithio dramor wedi golygu bod nifer o'r twrnameintiau hyn wedi'u canslo eisoes. Fodd bynnag, mae rhai digwyddiadau rhyngwladol yn aros ar y calendr ac rydym yn croesi ein bysedd a'n ffyn y byddant yn mynd yn eu blaen:

- Awst - Twrnamaint rhyngwladol y Pedair Gwlad yn Nottingham ar gyfer Dros 35 / 40/45/50/55 / 60, yn y rhan fwyaf o achosion yn cynnwys Lloegr, Iwerddon, yr Alban a Chymru.
- Awst - Cwpan Celtaidd yn Belfast ar gyfer Dros 60 / D65 / D70 yn cynnwys Iwerddon, yr Alban, Cymru a Ffrainc. Cymru yw'r deiliaid cyfredol Dros 65 a Thros 70.
- Hydref / Tachwedd - gemau rhyngwladol cartref ac oddi cartref Dros 35 v Lloegr yng Ngholeg Marlborough a Chaerdydd.
- Tachwedd - Twrnamaint rhyngwladol y Pedair Gwlad Dros 75 yng Nghaerdydd yn cynnwys Cymru, Lloegr, yr Iseldiroedd a'r Alban. Bydd hwn yn achlysur o bwys yn cynnwys y gemau rhyngwladol cyntaf ar gyfer ein carfan Dros 75 sydd newydd ei ffurfio ac mae'n ddigon posib mai hwn fydd y digwyddiad Dros 75 Pedair Gwlad cyntaf yn y DU.





# CYSTADLAETHAU 2020/2021

**Dim Cystadlaethau Cwpan Hoci Cymru wedi'u chwarae yn ystod 2020/2021.**

## CYSTADLAETHAU CLWB

**Gorffennaf 2020**
*Rhaglen lawn wedi'i chynllunio.*

**Hydref 2020**
*Cwpan Dan Do, a Chystadlaethau Tlws a Her wedi'u canslo.*

**Ionawr 2021**
*Cystadlaethau Pencampwriaeth a Meistr, pob Cystadleuaeth Ieuenctid a phob Cystadleuaeth Ysgol wedi'u canslo.*

## CYSTADLAETHAU CLWB EWROHOCI

- Ym mis Ionawr 2020, cymhwysodd Caerdydd a Met ac Abertawe ar gyfer cystadlaethau clwb Dan Do EwroHoci 2021.
- Canslwyd cystadlaethau Dan Do EwroHoci 2021 - bydd Caerdydd a Met ac Abertawe yn cynrychioli Cymru yng nghystadlaethau Dan Do EwroHoci 2022.
- Ni chwblhawyd cystadleuaeth Pencampwriaeth HC 2019/2020.
- Yn rowndiau terfynol Pencampwriaeth HC yn 2019, cymhwysodd Caerdydd a Met (Dynion), yr Eglwys Newydd (Dynion) a Gwent (Merched) ar gyfer cystadlaethau clwb Awyr Agored EwroHoci2020.
- Yn ogystal, cymhwysodd CH Abertawe (merched), ein tîm yn y safle uchaf yn EHL, yn awtomatig.
- Cafodd cystadlaethau 2020 eu canslo heb unrhyw gystadlaethau HC yn 2020/2021, gwahoddwyd pob un o'r 4 tîm i gynrychioli Cymru yng nghystadlaethau clwb EwroHoci 2021.
- Mae cystadlaethau clwb EwroHoci 2021 wedi'u gohirio o fis Ebrill / Mai i fis Medi / Hydref.







## CWPAN CYMRU RHITHWIR HOCI CYMRU

Oherwydd pandemig COVID, ni lwyddwyd i gynnal unrhyw gystadlaethau ffurfiol yn ystod tymor 2020/21. Er mwyn sicrhau bod clybiau'n cadw mewn cysylltiad, datblygwyd Cwpan Rhithwir Cymru ar gyfer clybiau ac ysgolion uwchradd:

### PRIF YSTADEGAU CLYBIAU AR GYFER 2020/21:

ENILLYDD

**CLWB HOCI BWCLE**

**32** O DIMAU

**32,377** O BLEIDLEISIAU

**1,435,804** O ARGRAFFIADAU

**59,598** O GYSYLLTIADAU

### PRIS YSTADEGAU YSGOLION UWCHRADD AR GYFER 2020/21:

ENILLYDD

**YSGOL UWCHRADD CASTELL ALUN**


**32** O DIMAU

**26,320** O BLEIDLEISIAU

**1,011,145** O ARGRAFFIADAU

**54,382** O GYSYLLTIADAU

# PARTNERIAETHAU



# PARTNERIAID

## Hoffem ddiolch i'n partneriaid ni i gyd am eu cefnogaeth

European Hockey Federation

International Hockey Federation

**Diolch enfawr i Irfon Bennett sy'n cofnodi'r holl ddigwyddiadau arbennig yn gyson gyda'i sgiliau ffotograffiaeth.**







**KIT CYFRANNU CIT**

Rydym wedi cyfrannu cit i **BEN-Y-BONT AR OGWR, Y BONT-FAEN** a **DOWLAIS**

**MWYNHEWCH!**



**277**

**O AELODAU**



**RAFFL FISOL**

| **48** | **37** | **11** |
|---|---|---|
| O RAFFLAU MISOL | O ENILLWYR UNIGOL | O GLYBIAU'N ENILLWYR |

# PROSIECTAU 2020 - 2021



**CY DNABOD CYFLAWNIAD**

Cyllido **'GWOBR PETER ENGLISH'** yng Ngwobrau Hoci Cymru

**ENILLYDD – FFION ROSS**



**CAPIAU RHYNGWLADOL**

Noddi **CAPIAU RHYNGWLADOL HŶN CYMRU**
1af, 50fed, 100fed a 150fed

Mae gan ein tudalen ni ar Facebook
**238 WEDI EI HOFFI A 251 O DDILYNWYR**
**Cyfeillion Hoci Cymru**

Mae gan ein cyfrif Twitter
**311 O DDILYNWYR**
**@Friends of WH**

Mae gan ein cyfrif Instagram
**119 O DDILYNWYR A 101 O NEGESEUON**
**friends_of_wh**

**www.friendsofwelshhockey.org.uk**

Rhif Elusen: 1140894

# MATERION ARIANNOL

HOCKEY WALES
HOCI CYMRU

# MATERION ARIANNOL 2020 –2021

HOCKEY WALES
HOCI CYMRU

## CYFRIFON BLYNYDDOL

Gwneir adroddiad llawn yn y GM ar ôl cymeradwyo'r cyfrifon yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd, felly dim ond crynodeb cyffredinol o'r flwyddyn ariannol yw'r wybodaeth ganlynol yn seiliedig ar y cyfrifon drafft.

## MANTOLEN

Cynyddodd y cronfeydd wrth gefn £38k i lefel o £194k ac er bod y lefel yn cynyddu yn unol â'r gofynion mae'n parhau i fod ychydig yn brin o'r lefel ddelfrydol yn unol â'n hasesiad risg. Mae'r lefel hefyd yn is na CRhC eraill o faint tebyg.

Gostyngodd y dyledwyr £39k, yn bennaf oherwydd derbyn arian hwyr gan aelodau'r carfannau rhyngwladol. O dan y cytundeb athletwyr newydd, roedd yn ofynnol i bob chwaraewr hŷn dalu'r costau dangosol cyn 31/3/21, a ohiriwyd hefyd i'r flwyddyn ariannol newydd.

Fel y gellir deall, ychydig iawn o weithgarwch rhyngwladol ddigwyddodd felly gohiriwyd elfen fawr o'r grant cysylltiedig hyd at 2021/22, ynghyd â'r incwm Llwybr 360 a dderbyniwyd ym mis Ionawr gan na ddechreuodd y cynllun tan fis Ebrill 2021.

## INCWM A GWARIANT

Bydd yr aelodau'n ymwybodol bod y Bwrdd wedi cytuno i ostyngiad o 50% mewn ffioedd ymaelodi, a ostyngodd ein hincwm i £50k, i lawr o £121k yn ystod y flwyddyn flaenorol. Nid oes unrhyw gynnydd mewn ffioedd wedi'i gynllunio ar gyfer 2021/22 ond bydd hyn yn cael ei adolygu ar gyfer y flwyddyn ganlynol pan ragwelir cynnydd.

Fel y gellir dychmygu, nid yw cyrsiau dyfarnu Lefel 1 a'r dyfarniad Arweinyddiaeth wedi gallu cael eu cynnal wyneb yn wyneb ond yn dilyn cryn dipyn o waith cynhaliwyd fersiynau ar-lein o'r ddau a brofodd yn boblogaidd iawn. Roedd y gwariant yn fach iawn o ystyried nad oedd fawr ddim costau gorbenion o ran llogi cyfleusterau.

Adolygwyd ein hyswiriant ac yn dilyn trafodaethau, trafodwyd gostyngiad cyffredinol yn y premiwm ynghyd â chynnydd mewn yswiriant.

Cafwyd cyllid ychwanegol gan Chwaraeon Cymru i wneud iawn yn rhannol am golli ffioedd ymaelodi, a hefyd swm pellach i'n galluogi i 'ail-lansio'r' gamp pan fyddai'r amodau'n caniatáu - mae'r swm hwn hefyd wedi'i ohirio o ystyried y cyfyngiadau parhaus.

HOCKEY WALES
HOCI CYMRU

# DIOLCH YN FAWR

**Adroddiad Blynyddol Hoci Cymru 2020/21.**

**Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad ac i'r teulu hoci am eich cefnogaeth gyson.**

Am fwy o wybodaeth neu i gymryd rhan ewch i:

**www.hockeywales.org.uk**

**@HockeyWales**

**@hockey_wales**

**@HockeyWales**

Neu anfonwch e-bost atom ni ar: **info@hockeywales.org.uk**

**Hoci Cymru**
Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru,
Gerddi Sophia, Caerdydd, CF11 9SW.